Adroddiad ar

Ysgol Y Llys

Rhodfa'r Tywysog
Prestatyn
Sir Dinbych
LL19 8RP

Dyddiad yr arolygiad:  Mawrth 2026

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Y Llys

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Y Llys |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Ddinbych |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg | |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 344 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 243 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 52 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 21.7%) | 12.9% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 9.2%) | 2.5% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 56.8% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Partner arweiniol ar gyfer Addysg gychwynnol athrawon | Nac ydy |

| | |
|---|---|
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/01/2025 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 16/03/2026 |

Daw'r data hwn o ddata diweddaraf y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgyblion. Efallai byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

## Crynodeb

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol a gofalgar lle mae perthnasoedd gwaith cadarnhaol rhwng staff a disgyblion yn cefnogi ymdeimlad cryf o barch. O ganlyniad, mae bron bob disgybl yn ymddwyn yn dda ac yn ymgysylltu'n gadarnhaol â'u dysgu.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r Gymraeg yn gryf, gyda staff yn modelu'r iaith yn fedrus. Mae hyn yn galluogi'r disgyblion i gyfathrebu'n hyderus ac i ddatblygu medrau cadarn yn y ddwy iaith erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol. Yn gyffredinol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a'r rhai o deuluoedd incwm isel, yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau. Er hyn, nid yw athrawon yn darparu digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio a datblygu eu medrau'n adeiladol ar draws y meysydd dysgu.

Mae athrawon yn darparu cwricwlwm sy'n cynnig profiadau ysgogol ac yn ennyn a chynnal diddordeb disgyblion yn llwyddiannus. Mae hyn yn cyfrannu at eu brwdfrydedd a'u balchder yn eu dysgu yn effeithiol. Er bod llawer o arferion addysgu medrus, nid yw'r arferion gorau wedi'u gwreiddio'n ddigon cyson ar draws yr ysgol. O ganlyniad, nid yw ychydig o ddisgyblion yn cael eu herio'n briodol nac yn cael digon o gyfleoedd i ymateb i adborth staff er mwyn gwella eu gwaith.

Mae staff yn darparu cymorth trefnus i ddisgyblion ag ADY, sy'n cefnogi llawer ohonynt i feithrin eu lles ac i wneud cynnydd cyson yn eu medrau. Er bod presenoldeb disgyblion yn briodol, mae'r rhai sy'n absennol yn barhaus yn bryder.

Mae arweinwyr yn darparu cyfeiriad clir i'r ysgol ac yn cefnogi datblygiad staff yn briodol. At ei gilydd, nid ydynt yn gweithredu ar drefniadau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant yn ddigon effeithiol er mwyn cefnogi disgyblion i wneud cynnydd cyson yn eu medrau ar draws y meysydd dysgu.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud tri argymhelliad i helpu'r ysgol barhau i wella

A1 Lleihau cyfraddau'r disgyblion sy'n absennol yn barhaus

A2 Rhannu a chysoni'r arferion addysgu mwyaf effeithiol i gefnogi disgyblion i wneud cynnydd cyson yn eu medrau ar draws y meysydd dysgu

A3 Cryfhau prosesau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella er mwyn canolbwyntio'n gyson ar effaith y ddarpariaeth ar gynnydd a safonau disgyblion

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif werthusiad

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar a chynhwysol sy'n rhoi blaenoriaeth glir i les disgyblion a datblygiad eu hunaniaeth Gymreig. Mae arweinwyr a staff yn cydweithio'n effeithiol i greu ethos cadarnhaol lle mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel, yn cael eu parchu ac yn ymddwyn yn dda. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol at eu dysgu ac yn cyfranogi'n fwriadus yn eu gweithgareddau. Mae staff yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion rannu eu syniadau a dylanwadu ar agweddau pwysig o'r ddarpariaeth. O ganlyniad i'r profiadau hyn, mae eu medrau arwain yn datblygu'n dda. Maent yn hyderus bod staff yn gwrando ac yn gweithredu ar eu syniadau.

Bron heb eithriad, mae staff yn modelu'r Gymraeg yn effeithiol, sy'n cyfrannu'n gryf at ddatblygiad medrau cyfathrebu'r disgyblion. Ar draws yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau gwrando a siarad yn gadarn ac yn defnyddio'r Gymraeg yn hyderus mewn ystod o gyd-destunau. Erbyn cyrraedd brig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf yn darllen yn rhugl yn Gymraeg a'r Saesneg ac yn dangos dealltwriaeth briodol o destunau. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu yn gyson mewn ystod briodol o gyfleoedd ar draws y meysydd dysgu.

Trwy ddarpariaeth berthnasol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau rhifedd a digidol dros amser. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn cefnogi disgyblion i wneud cynnydd adeiladol yn eu medrau bob amser. Yn gyffredinol, nid yw'r ddarpariaeth yn cefnogi'r disgyblion i ddatblygu a chymhwyso eu medrau i'r un safon ar draws y meysydd dysgu.

Mae athrawon yn cydweithio'n effeithiol i gynllunio cwricwlwm perthnasol sy'n ennyn a chynnal diddordeb disgyblion yn dda ac yn darparu profiadau dysgu ysgogol, gan gynnwys cyfleoedd buddiol iddynt ddysgu yn yr amgylchedd allanol. Mae hyn yn cyfrannu'n gyson at frwdfrydedd disgyblion at eu dysgu a'u balchder yn eu gwaith. Mae athrawon yn defnyddio ystod briodol o ddulliau holi i ymestyn dealltwriaeth disgyblion ac i wirio eu dysgu. Yn yr arferion mwyaf effeithiol, mae athrawon yn darparu gweithgareddau heriol sy'n diwallu anghenion disgyblion yn briodol, ac yn rhoi cyfleoedd iddynt wneud penderfyniadau am eu dysgu eu hunain. Er hyn, mewn lleiafrif o achosion, nid yw'r gweithgareddau dysgu yn darparu digon o her i ddisgyblion i'w cefnogi i wneud cynnydd adeiladol yn eu medrau. At ei gilydd, nid yw athrawon yn darparu adborth i ddisgyblion yn ddigon medrus bob tro sy'n cyfyngu ar eu dealltwriaeth a'u gallu i drosglwyddo eu medrau i gyd-destunau newydd.

Mae staff yn darparu cymorth effeithiol i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) drwy gydlynu rhaglenni cefnogi pwrpasol iddynt, a thrwy gydweithio'n effeithiol ag asiantaethau allanol. Mae staff yn adnabod anghenion disgyblion yn dda ac yn defnyddio gwybodaeth asesu i fonitro eu cynnydd yn rheolaidd. O ganlyniad, mae llawer o

ddisgyblion ag ADY yn gwneud cynnydd priodol wrth feithrin eu lles a gwella eu medrau. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau ysbrydol, moesol a chymdeithasol disgyblion yn gryf, ac mae hyn yn cefnogi eu gallu i ymgysylltu'n gadarnhaol â'u dysgu. Enghraifft dda o hyn yw'r ddarpariaeth gynhwysol sy'n cynorthwyo disgyblion i ymgysylltu ymhellach â'u dysgu. Trwy hyn, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos parch ac yn cydweithio'n gynhyrchiol â'i gilydd.

Mae arweinwyr yn monitro presenoldeb disgyblion yn yr ysgol yn briodol ac yn eu cefnogi ynghyd â'u teuluoedd yn dda. Er bod cyfraddau presenoldeb yn dda, mae ychydig o ddisgyblion sy'n absennol yn barhaus yn cynyddu dros amser. Yn gyffredinol, mae hyn yn bryder ac nid yw arweinwyr yn gweithredu dulliau digon effeithiol i leihau'r cyfraddau hyn dros amser.

Mae arweinwyr yn casglu ystod briodol o dystiolaeth i werthuso gwaith yr ysgol ac yn defnyddio'r wybodaeth i bennu blaenoriaethau gwella yn briodol. Fodd bynnag, nid yw'r gwerthusiadau bob amser yn ddigon miniog nac yn canolbwyntio'n ddigon cryf ar effaith y ddarpariaeth ar gynnydd a safonau disgyblion.

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth fedrus ac yn cael ei werthfawrogi gan gymuned yr ysgol. Ar y cyd â'r uwch dîm arwain a staff ymroddedig, mae'n hyrwyddo weledigaeth glir sy'n canolbwyntio ar les disgyblion, datblygu'r Gymraeg a chreu ymdeimlad cryf o berthyn i'r ysgol a'r gymuned ehangach. Mae arweinwyr yn rhannu rolau a chyfrifoldebau yn synhwyrol ac yn meithrin diwylliant cydweithredol sy'n cefnogi dysgu proffesiynol a lles staff yn dda. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd perthnasol iddynt gefnogi blaenoriaethau gwella, ac, ar y cyfan, mae hyn yn arwain at welliannau buddiol mewn addysgu a dysgu.

Mae llywodraethwyr yn cefnogi gwaith yr ysgol yn briodol ac yn darparu her a chymorth adeiladol i arweinwyr. Maent yn adnabod yr ysgol a'i chymuned yn dda. Mae partneriaethau effeithiol â rhieni a'r gymuned yn cyfoethogi profiadau disgyblion ac yn cyfrannu at eu hymdeimlad o berthyn i'r ysgol.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli'r safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 21/05/2026